



Eich cyf/Your ref P-05-932
Ein cyf/Our ref KW/07585/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

04 Rhagfyr 2019

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-932 'Addysg ar alergeddau bwyd mewn ysgolion a hyfforddiant EPI-PEN gorfodol' gan Archie's Allergies. Rwy'n cydnabod pa mor bwysig ydyw fod rhieni/gofalwyr a dysgwyr ag alergeddau'n teimlo'n hyderus am y gefnogaeth a ddarperir yn yr ysgol.

Mae'n bwysig bod ysgolion yn darparu cymorth o ansawdd uchel i ddysgwyr ag alergeddau er mwyn eu helpu i beidio â dod i gysylltiad ag allergenau ac er mwyn ymateb yn briodol i unrhyw adwaith alergaidd.

Mae ein dull gweithredu ni, sy'n gyfuniad o ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol, yn rhoi disgwyliadau uchel ar ysgolion ac yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol iddynt benderfynu sut orau i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion gofal iechyd.

Mae gan awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion ddyletswyddau cyfreithiol eisoes i ddarparu addysg a chefnogaeth addas i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

- O dan Ddeddf Addysg 1996, rhaid i awdurdodau lleol ddarparu addysg addas i bob dysgwr, a rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gefnogi dysgwyr a bod staff yn ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, dysgwyr a rhieni i wneud yn siŵr bod anghenion y dysgwr wedi'u deall yn iawn a'u bod yn cael cefnogaeth effeithiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- O dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (“Deddf 2002”), rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau’n cael eu harfer gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yr ysgol neu mewn lleoliad dysgu arall. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant ag anghenion gofal iechyd. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
- Mae adran 21(5) o Ddeddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd ar gyrff llywodraethu i hyrwyddo llesiant dysgwyr yn yr ysgol, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol, addysg, hyfforddiant a hamdden, a llesiant cymdeithasol.

I helpu awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau statudol [Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd](#) yn 2017 mewn ymgynghoriad ag ystod amrywiol o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau alergeddau.

Mae'r canllawiau statudol hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a lleoliadau addysg yng Nghymru fod â pholisi anghenion gofal iechyd sydd ar gael yn hwylus i staff a rheini. Dylai'r polisi hwn geisio sicrhau bod disgyblion sydd ag unrhyw gyflwr meddygol, gan gynnwys alergeddau, yn cael cefnogaeth briodol.

Dyma'r prif ddisgwyliadau:

- Dylid rhoi cefnogaeth briodol i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd er mwyn iddynt gael mynediad llawn at addysg, gan gynnwys teithiau ac addysg gorfforol.
- Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.
- Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod staff mewn lleoliadau addysg yn ymgynghori â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol, dysgwyr a rhieni i wneud yn siŵr bod anghenion dysgwr ag anghenion gofal iechyd wedi'u deall yn iawn a'u bod yn cael cefnogaeth effeithiol.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylid hyfforddi staff ysgolion fel eu bod yn adnabod yr arwyddion, y symptomau a'r hyn sy'n achosi cyflyrau meddygol cyffredin sy'n peryglu bywyd, ac yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar sut i ddefnyddio chwistrellydd adrenalin awtomatig (AAI), y cyfeirir ato weithiau fel Epi-Pen.

Yn dilyn newid i ddeddfwriaeth y DU, ers 1 Hydref 2017, mae lleoliadau addysg yn gallu prynu AAI i'w ddefnyddio mewn argyfyngau heb orfod cael presgripsiwn. Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r ddogfen [Canllawiau ar ddefnyddio chwistrellwyr adrenalin awtomatig brys mewn ysgolion yng Nghymru](#), a ddrafftwyd mewn cydweithrediad ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys arbenigwyr iechyd a sefydliadau alergeddau. Mae'r canllawiau hyn yn darparu cyngor ar adnabod ac ymateb i sioc anaffylactig; defnyddio AAI; lleihau'r risg o ddod i gysylltiad ag alergenau; a phrynu, storio, gofalu a chael gwared ar AAI brys; ac mae hefyd yn cynnwys dolenni i ragor o wybodaeth. Gall ysgolion gael hyfforddiant a chefnogaeth bellach yn ymwneud ag alergeddau a defnyddio AAI gan wasanaethau nyrsio ysgolion a thimau alergedd y byrddau iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod sgiliau achub bywyd a chymorth cyntaf a'r ffordd gywir o'u gweithredu mewn argyfwng yn bwysig i bawb eu dysgu - ac rydyn ni'n awyddus i godi ymwybyddiaeth o'r sgiliau hynny. Fel rhan o elfen Addysg Bersonol a Chymdeithasol y cwricwlwm, mae ysgolion yn gallu, yn ôl eu disgrisiwn, gwahodd sefydliadau i roi cyflwyniadau i'w dysgwyr ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys alergeddau bwyd. Rydym yn datblygu cwricwlwm newydd i Gymru ar hyn o bryd er mwyn codi safonau a galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd mewn perthynas â'r pedwar diben.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cael ei lunio i gefnogi'r gwaith o addysgu dysgwyr am hanfodion iechyd a lles, yn ogystal â chaniatáu i weithwyr proffesiynol lunio cynnwys penodol sy'n addas at ddibenion eu dysgwyr. Ond bydd yn bwysig i ysgolion barhau i fanteisio ar arbenigedd a chymorth darparwyr arbenigol i wella'u darpariaeth.


Mae Rheoliad Darparu Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE Rhif 1169/2011 yn ei gwneud yn ofynnol i arlwywyr ysgol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth ynghylch unrhyw alergenau sydd yn y bwyd a'r diodydd y maent yn eu gweini yn yr ysgol. Mae fy swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag arlwywyr ysgol, awdurdodau lleol a dietegwyr lle caiff materion yn ymwneud ag alergeddau bwyd eu trafod yn fanwl.

Rydym hefyd yn newid Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth (Cymru) 2013, ac yn diwygio'r canllawiau statudol i ysgolion. Byddwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith diwygio hwn ac rwy'n annog pawb sydd â diddordeb i rannu eu barn fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

O safbwynt iechyd, rydym wrthi'n adolygu ein dull gweithredu mewn perthynas ag alergeddau ac imiwnoleg, a bydd y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol yn cynnal cyfarfod â'r arbenigwyr perthnasol ym mis Ionawr 2020 i drafod ystod o faterion, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o alergeddau. Ceir trafodaeth bellach ar y mater hwn gyda'n rhanddeiliaid, sy'n debygol o gynnwys y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, yr Ymgyrch Anaffylacsis ac Allergy UK.

Rwy'n ystyried bod y ddeddfwriaeth bresennol a'i chanllawiau statudol, a hefyd y gwaith diwygio sydd yn yr arfaeth i'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a'r canllawiau statudol perthnasol, yn ddigonol, ac felly nad oes angen deddfu ymhellach ar hyn o bryd ar ymateb ysgolion i ddisgyblion ag alergeddau. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr, sefydliadau alergeddau ac eraill ar gefnogi dysgwyr ag alergeddau mewn ysgolion, ac yn cymryd eu sylwadau i ystyriaeth.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education